

Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE

Nodyn cryno o'r gwaith ymgysylltu

Mai 2023

Cefndir

Cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ymchwiliad i gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE.

Fel rhan o'r broses o gasglu barn, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull cymysg o ymgysylltu. Gan ddefnyddio arolwg, casglodd y Pwyllgor ddata meintiol ac ansoddol gan sefydliadau llawr gwlad a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (y cyfeirir ati'n aml gan ymatebwyr fel *SPF*), y Gronfa Ffyniant Bro a / neu Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Methodoleg

Cafodd arolwg ar-lein ei ddylunio a'i ddsbarthu i gysylltiadau perthnasol a'i rannu'n gyhoeddus yn gwahodd sefydliadau i gymryd rhan.

Wedi'i strwythuro o amgylch y cylch gorchwyl, gofynnwyd 17 cwestiwn. (Gweler Atodiad 1 am y rhestr lawn o gwestiynau). Cafodd y data eu dadansoddi gan y Rheolwr Ymgysylltu â Dinasyddion. Casglwyd dyfyniadau uniongyrchol o ganlyniadau'r arolwg i ychwanegu cyd-destun at y themâu allweddol yn y nodyn hwn.

Sampl

Roedd yr ymatebwyr yn cynnig eu hunain. Cynlluniwyd yr arolwg i ofyn cwestiynau penodol i ymatebwyr a oedd yn cael y gwahanol ffrydiau ariannu a grybwyllwyd uchod, neu ddim yn eu cael.

Cyfrannodd **34** o ymatebwyr.



Daeth ymatebwyr o nifer o sectorau gan gynnwys y sector gwirfoddol (18), busnesau (3) a cholegau (5).

Disgrifiodd 11 o ymatebwyr eu hunain fel rhai sydd wedi cael cyllid cyn ac ar ôl yr UE, neu'n cael y cyllid hwnnw ar hyn o bryd.

Disgrifiodd 12 o ymatebwyr eu hunain fel rhai sydd wedi cael cyllid cyn yr UE yn unig, neu'n cael y cyllid hwnnw ar hyn o bryd.

Disgrifiodd dau o ymatebwyr eu hunain fel rhai sydd wedi cael cyllid ar ôl yr UE yn unig, neu'n cael y cyllid hwnnw ar hyn o bryd.

Disgrifiodd 5 o ymatebwyr eu hunain fel rhai nad ydynt wedi cael cyllid cyn nac ar ôl yr UE.

Ni atebodd 4 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd sefydliadau'r ymatebwyr wedi'u lleoli yn un o'r 12 ardal awdurdod lleol a ganlyn, neu gwnaethant ddisgrifio bod eu sefydliad wedi'i lleoli dros Gymru gyfan;



Caerffili
Caerdydd
Sir Gaerfyrddin
Ceredigion
Conwy
Gwynedd
Merthyr Tudful
Castell-nedd Port
Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Rhondda Cynon Taf
Abertawe

Y canfyddiadau allweddol

Mae'r data a gasglwyd wedi'u dadansoddi ac mae 10 o themâu allweddol wedi eu nodi. Y themâu hyn oedd y themâu mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r holl ddata. Caiff y dyfyniadau uniongyrchol eu harddangos mewn blychau llwyd.

Gofynnwyd yr hyn a ganlyn i'r ymatebwyr a ddisgrifiodd eu hunain fel rhai sydd wedi cael cyllid cyn ac ar ôl yr UE: *Sut mae profiad eich sefydliad o'r broses ar gyfer gwneud cais am y Gronfa Ffyniant Cyffredin a/neu'r Gronfa Ffyniant Bro yn cymharu â gwneud cais am Gronfeydd Strwythurol y DU?*

Roedd yr ymatebion yn amrywiol - gwnaed sylwadau cadarnhaol ond ar y cyfan roedd naws negyddol i'r sylwadau:

"Applying for the SPF has presented specific challenges to us as an organisations for several reasons."

Y themâu allweddol, yn nhrefn y rhai a gododd amlaf yn gyntaf, oedd:

1. Anghysondebau ar draws gwahanol awdurdodau lleol

Mynegodd ymatebwyr bryder difrifol am yr anghysondebau ar draws gwahanol awdurdodau lleol. O sut i gael gafael ar gyllid i'r broses ymgeisio a gwerthuso, roedd llawer o elfennau'n wahanol:

"In practice, we have faced significant bureaucracy when proposing a similar intervention to tackle a common issue across different local authority areas."

"Very disjointed and confusing - hard to get information and see the bigger picture when each LA is doing their own thing. Lack of guidance hindering the process."

Roedd hyn yn golygu bod angen mwy o adnoddau i sicrhau bod prosiectau sy'n rhychwantu mwy nag un ardal yn llwyddiannus. Fe'i disgrifiwyd fel ffordd aneffeithlon o weithio:

"Of the four regions within Wales, only two have taken a regional approach to their bidding process meaning that there are approximately 18 different ways in which to bid for the SPF in Wales."

"Engaging with 22 local authorities in Wales all of whom may decide to do things very differently, is very resource intensive."

Pan fo sefydliadau'n gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol, pe na baent yn llwyddiannus gydag un neu fwy o'u ceisiadau, roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai hyn beryglu'r prosiect cyfan. Gallai achosi problemau gyda dyrannu a dosbarthu cyllid, gan ychwanegu at yr hyn a elwir yn loteri cod post o ran cymorth i gymunedau bregus.

Roedd ymdeimlad nad yw dulliau ariannu ar draws Cymru mor gydgysylltiedig ag yr oeddent o'r blaen oherwydd y dulliau amrywiol o weithredu gan awdurdodau lleol:


"We also have very little information or no information about other local projects and we are very conscious that this project is only for one LA- we previously worked across a number of Local Authorities in the Welsh Valleys and this was very effective - now we are restricted. If we are successful in securing other projects in other LA's these will be completely separate."

"The approach to the funding has been different in every county, with no standardisation for applications by the sector. It is a very sad state of affairs where we have gone from good partnership working and a fair and open approach for application to the current picture."

Cafodd hyn ei atgyfnerthu ymhellach yn atebion yr ymatebwyr i gwestiwn 11:

*Can ddefnyddio sgoriau 1 = **ddim yn syml a 5 = yn syml iawn**, sut y byddech yn disgrifio'r prosesau ar gyfer gwneud cais am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro?*

Y sgôr ar gyfartaledd oedd **2.19**



2. Anodd ei ddefnyddio

"It's proving to be inaccessible and top-down."

"Shared prosperity is not a replacement for EU funds and all organisations are finding it difficult to navigate."

Dywedodd yr ymatebwyr fod y brif wybodaeth yr oedd awdurdodau lleol yn ei rhannu am y ffrydiau ariannu newydd yn anodd ei defnyddio ond yn aml roedd diffyg cyfathrebu a diffyg rhannu gwybodaeth ac felly roeddent yn cael trafferth cymryd rhan yn y broses:

"UKSPF - very different experience. With EU funds there was guidance and structure with set questions and due diligence. With UKSPF we contacted all our local authorities with a detailed description of what we can deliver and how this correlates to the UKSPF plans as there had been no application forms or set procurement plans. Very few LA's responded or had information days / sessions."

Esboniodd nifer o ymatebwyr nad oedd eu hawdurdod lleol wedi cydweithio â nhw, a bod hyn yn wahanol iawn i'w profiadau gyda Chronfeydd Strwythurol yr UE. Arweiniodd hyn at ymatebwyr yn teimlo bod awdurdodau lleol yn gwneud yr arian yn anghyraeddadwy:


“SPF has been a local authority driven process with little to no co-production - our involvement followed a request to the local authority rather than as a result of an invite, we have been advised of the decisions made on our behalf rather than being invited in to a discussion and we have seen sequential reductions in the amount allocated to us.”

“Engagement at the time of developing the SPF was limited and appears to have had little impact on the design of the SPF both in terms of its administration and the indicative list of interventions which could be funded. This contrasts with EU funded projects where the third sector’s input was sought at an early stage in order to support the identification of need and subsequent design of interventions.”

Ategwyd y thema hon yng nghanlyniadau cwestiwn 10:

*Can ddefnyddio sgoriau 1 = **anhgyrch iawn** a 5 = **hygyrch iawn**, sut fydddech chi'n disgrifio hygyrchedd y cyllid presennol? O ran llwyddo i nodi a chefnogi'r holl gymunedau a'r ardaloedd yng Nghymru sydd â'r angen mwyaf*

Y sgôr ar gyfartaledd oedd **2.18**



3. Proses ymgeisio well

Thema gadarnhaol a gododd nifer o weithiau yn sylwadau'r ymatebwyr oedd bod y broses ymgeisio ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn haws na'r broses ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE. Fodd bynnag, soniwyd am hyn o bryd i'w gilydd ochr yn ochr â'r pryderon am yr anghysondebau rhwng ffurflenni cais unigol awdurdodau lleol:

"The business plans required [for EU structural funds] were incredibly complicated and long, with lots of staff changes on both sides that proved problematic [...] There were lots of eligibility requirements, paperwork and restrictions that were added later, and lots of moving of goal posts that should have been clear at application stage."

"The process of applying for the second EU Structural funds was so complex/onerous/ long (2 x 64 page business plans that we worked on for over 18 months that we eventually had to take the organisational decision that we would no longer be able to apply directly to WEFO) [...] Our experience so far of applying for SPF has been much better, with regard to the actual application forms. However, the timescales and lack of information has been difficult."

Roedd ymdeimlad hefyd bod y cyllid wedi'r UE yn fwy perthnasol i anghenion lleol ar lawr gwlad. Ehangir ar y thema hon yn ddiweddarach yn y nodyn cryno hwn:

"The paperwork requirement to date is far more proportionate and reasonable than that experienced through EU Structural funding which as well as reducing the organisational burden looks set to allow us to shape interventions much more around local needs rather than the pre-prescription involved with EU structural funds."

4. Strwythur well ar gyfer dosbarthu cyllid

Gofynnwyd i bob sefydliad a nododd eu bod yn cael arian wedi'r UE awgrymu gwelliannau i'r broses gyllido gyfredol.

Awgrymodd sawl ymatebydd fod Llywodraeth Cymru neu gorff ar wahân yn rheoli prosiectau ledled Cymru i sicrhau ffyrdd mwy effeithlon o weithio:

“While there is an important role for hyper local interventions, the lack of framework for pan-Wales projects risks seeing the entrenchment of a postcode lottery with individuals being unable to access interventions from which they would benefit. There is a need for a framework to support pan-Wales delivery.”

“One administering entity within Wales could provide the simplicity, speed and synergy required to maximise the pan-Wales opportunities.”

“Joint process across Wales with the ability to work across LA's.”

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r dull hwn yn sicrhau mwy o dryloywder a llywodraethu:

“There should be ring fenced funding for the third sector, centrally managed by Welsh Government. There should be a requirement for transparent processes for allocation of funding.”

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen gwella'r dull rhanbarthol sydd wedi'i ymgorffori o fewn dau ranbarth yng Nghymru.

5. Cyfathrebu ac amserlenni gwell

Roedd yna gais am well cyfathrebu rhwng darpar ymgeiswyr ac awdurdodau lleol:

Awgrym ar gyfer gwella: “Clear and consistent information asked for along with guidelines and information about targets and aims.”

Roedd yr oedi wrth gyfathrebu wedi effeithio ar yr amserlenni cyffredinol ac roedd ymatebwyr yn teimlo bod amserlenni afrealistig ar gyfer cyflawni wedi effeithio'n ddifrifol ar y gyfran bresennol hon o gyllid:

“Due to delays in launching the SPF and the opening of the bidding process, the timescales for delivering interventions has become increasingly truncated. Interventions under the SPF need to have ended and be reported on by March 2025. Advice we have received has asked for projects to end by December 2024. With the bidding process not yet complete, the earliest that projects could be staffed and up and running is late summer of this year, leaving roughly 12 to 15 months for active delivery.”

"Multiple bidding processes have overlapped and created capacity challenges for ourselves in order to complete and submit applications on time."

"It has felt very rushed. Detail has been slow to emerge and planning was expected and submission time lines were very tight."

"Longer term EU funding did allow that to be retained and promoted, but with the promotion now of funding which is 12-18 months at most, it does not positively promote the retention of skills as staff need security more long term."

6. Bwlch ariannu yn effeithio ar gadw sgiliau yng Nghymru

Disgrifiodd nifer o ymatebwyr sut yr oedd effaith negyddol wedi digwydd o ganlyniad i ansicrwydd a'r bwlch ariannu rhwng diwedd Cronfeydd Strwythurol yr UE a dechrau ffrydiau cyllid ar ôl yr UE. Roeddent o'r farn bod hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar gadw sgiliau yng Nghymru:

"The gap between the end of EU funding and the start of SPF funding has already seen a loss of experience and expertise within the third sector."

"The release of these funds is way behind schedule, the harm that gaps in provision since the end of ESF funding has caused is unbelievable and has impacted overwhelmingly on the very demographic all our organisations are trying to help."

"There has been a lack of stability since the end of EU funding, several staff members could not have their contracts extended as a result. The egregious lack of information and inability to stick to proposed timetables is laughable. The effects on end users will be felt for years to come."

"The cliff edge scenario of removing ESF and having a seamless transition to new funding has not happened."

"The gap between the end of EU Structural Funds and the start of the SPF has forced many organisations to make difficult decisions to guarantee their financial sustainability."

7. Canfyddiad bod cyllid wedi'r UE yn is na'r cyllid cyn yr UE

Roedd barn ymhlith yr ymatebwyr eu bod yn cael llai o gyllid o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin nac o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE.

"As a result of actively engaging with the Local Authority the organisation has been successful in securing funding via SPF for 2 years (albeit not at the same level of funding as via ESF)."

"Funds have been to a lesser extent to that of EU funding which has hindered a lot of potential development. The way in which you are expected to spend the money on a percentage year on year basis is challenging, and this allows us not to develop programmes on a footing of a two year delivery basis. SPF funding has created a cliff face to fall off in year three."

8. Mwy o gymorth prosiect ar lefel leol, yn seiliedig ar anghenion lleol

Gwahoddwyd ymatebwyr i amlinellu pa gyfleoedd a ddarperir gan y ffrydiau cyllido newydd yn eu barn hwy. Un o'r prif fanteision a ddangoswyd oedd sut roedd prosiectau ar lefel leol yn cael eu cefnogi'n well a sut roedd prosiectau'n cael eu creu yn seiliedig ar anghenion lleol. Dyma rai o'r cyfleoedd gwnaeth yr ymatebwyr dynnu sylw atynt:

"A more localised decision about things that matter to local people."

"It has allowed us to develop programmes based on local need. It has given us the autonomy to develop our programmes moving forward that are less strict and not postcode drive - which has been a missing component during the ESF delivery years."

9. Y potensial ar gyfer cydweithio a phartneriaethau gwell

Ym marn yr ymatebwyr, roedd potensial ar gyfer cydweithio cryfach ar lefel awdurdod lleol, er iddynt ddisgrifio sut yr oedd hyn yn nod ar gyfer y dyfodol:

"Done well, it could provide an opportunity for some longer term changes in the way the LA works with the community and the voluntary sector that would be beneficial in terms of empowering community action and the positive"

outcomes this creates - in terms of wellbeing, agency, prevention, social values etc.”

“The fund (SPF) offers an opportunity to start conversations with Local Authorities, and hopefully build lasting relationships at that level, as well as develop new partnerships and delivery offers for our young people, in more areas across Wales.”


Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo bod y ffrydiau cyllido newydd yn cynnig mwy o botensial i dreialu prosiectau newydd:

“It allows for new project proposals to be tested as pilots, and evidence to be gathered through the delivery and engagement of communities, for larger potential future longer term funding, as well as other projects potentially becoming self-sustaining financially.”

Mae'n amlwg, yn ogystal â brwdfrydedd dros bartneriaethau, bod ymwybyddiaeth bod yr arian ar gael o ganlyniadau cwestiwn 9:

Can ddefnyddio sgoriau **1 = ddim yn ymwybodol a 5 = ymwybodol iawn**, sut fydddech chi'n disgrifio lefel ymwybyddiaeth eich sefydliad o gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE?

Y sgôr ar gyfartaledd oedd: **4.35**



10. Diffyg llywodraethu a thryloywder

Rhannodd llawer o'r ymatebwyr farn bod diffygion o ran rheolaeth yr awdurdodau lleol ar y cyllid. Roedden nhw o'r farn bod awdurdodau lleol wedi cyfyngu ar faint o arian oedd ar gael i sefydliadau eraill ar ôl dyrannu cyllid i'w prosiectau eu hunain:

"[it's] Very obviously in some areas the funding has been used to prop up local government shortfalls and none has come out for open bidding by the third sector."

"Post Brexit, all funding has gone to local authorities and, given the state of their finances, very little of it has been offered out to the voluntary sector as grants or as partnership projects."

Annex 1

Dywedwch ychydig wrthym amdanoch eich hun

1. Ym mha rinwedd ydych chi'n cwblhau'r arolwg hwn? Fel...

Sefydliad yn y sector gwirfoddol / Busnes / Coleg / Prifysgol / Awdurdod Lleol

2. I'n helpu ni i ddeall mwy am eich sefyllfa, beth yw enw'r sefydliad rydych yn cwblhau'r arolwg ar ei ran?
3. Ym mha ardal awdurdod lleol mae eich sefydliad wedi'i leoli?
4. Nod yr ymchwiliad hwn yw deall mwy am eich profiadau o'r ffrydiau cyllid canlynol:
 - Cronfeydd Strwythurol yr UE
 - Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU (y cynllun peilot ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin)
 - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
 - Y Gronfa Ffyniant Bro

I wneud yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau mwyaf perthnasol yn yr arolwg hwn, dewiswch 'Ydy' isod:

Os yw eich sefydliad wedi cael (neu'n cael) arian o Gronfeydd Strwythurol yr UE a/neu Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn unig ac NAD YW'N cael unrhyw arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU neu'r Gronfa Ffyniant Bro.

Ydy / Nac ydy / Ddim yn siŵr

5. Dewiswch 'ydy' isod os yw eich sefydliad wedi cael (neu'n cael) arian o Gronfeydd Strwythurol yr UE a/neu Gronfa Adfywio Cymunedol y DU a HEFYD wedi cael, neu wedi gwneud cais am, arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU neu'r Gronfa Ffyniant Bro.

Ydy / Nac ydy / Ddim yn siŵr

6. Dewiswch 'ydy' isod: Os yw eich sefydliad wedi cael, neu wedi gwneud cais am, arian o naill ai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a/neu'r Gronfa Ffyniant Bro YN UNIG

Ydy / Nac ydy / Ddim yn siŵr

7. Dewiswch 'ydy' isod: Os nad yw eich sefydliad wedi cael arian o unrhyw o'r ffrydiau cyllid a ganlyn:
 - Cronfeydd strwythurol yr UE
 - Cronfa Adfywio Cymunedol y DU (y cynllun peilot ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin)
 - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
 - Y Gronfa Ffyniant Bro

Ydy / Nac ydy / Ddim yn siŵr

Cyllid yr UE a chyllid wedi'r UE

Rydych wedi dweud wrthym eich bod wedi cael cyllid gan yr UE a'ch bod yn cael, neu wedi gwneud cais am, arian gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a/neu'r Gronfa Ffyniant Bro.

8. Os yw'n berthnasol, sut mae profiad eich sefydliad o'r broses o wneud cais ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a/neu'r Gronfa Ffyniant Bro yn cymharu â'r broses o wneud cais ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE?

Dywedwch wrthym am gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE

9. Lle mae 1 = ddim yn ymwybodol a 5 = yn ymwybodol iawn, sut byddech chi'n disgrifio lefel ymwybyddiaeth eich sefydliad o gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE.
10. Lle mae 1 = anhygyrch iawn a 5 = hygyrch iawn, sut byddech chi'n disgrifio pa mor hygyrch yw'r cyllid presennol? O ran...Nodi a chefnogi'r holl gymunedau ac ardaloedd yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf.
11. Lle mae 1 = ddim yn syml a 5 = syml iawn, sut byddech chi'n disgrifio'r prosesau ar gyfer gwneud cais i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro?
12. Dywedwch wrthym am unrhyw awgrymiadau sydd gennych o ran sut i wella'r broses bresennol ar gyfer cael cyllid:

Eich cyfle i ddweud eich dweud

13. Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a/neu'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer eich sefydliad?

14. Beth yw'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a/neu'r Gronfa Ffyniant Bro hyn ar gyfer eich sefydliad?

15. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ddweud wrthym amdano ynglŷn â phrofiad eich sefydliad o gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE?